Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 82/2025
DYDDIAD CYHOEDDI: 22/07/25

# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

## Cam Mehefin 2025









Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-198-7

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam Mehefin 2025

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau

Croeso Cymru

Economi, Ynni a Thrafnidiaeth

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: twristiaethymchwil@llyw.cymru

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

ISBN: 978-1-80633-198-7

22 Gorffennaf

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.

Trwydded Agored y Llywodraeth

## Cynnwys


Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru ........ 1

1. Casgliadau arweiniol ........ 2
2. Cefndir a methodoleg ........ 4
3. Perfformiad 2025 hyd yma ........ 5
4. Archebion ymlaen llaw, disgwyliadau a hyder ........ 12
5. Anghydbwysedd twristiaeth a natur dymhorol ........ 16
6. Cydweithio â gweithredwyr eraill ........ 19
7. Recriwtio ........ 21

# 1. Casgliadau arweiniol

## Blwyddyn gymysg hyd yma

Mae oddeutu chwarter (23%) o fusnesau twristiaeth wedi cael mwy o gwsmeriaid hyd yma eleni o’i gymharu â’r llynedd, ac mae 41% arall wedi cael yr un lefel. Fodd bynnag, mae 36% wedi adrodd lleihad.

Mae sectorau nad ydynt yn sectorau llety yn agos at gyfateb i berfformiad y llynedd, ond mae sectorau llety wedi cael blwyddyn heriol hyd yn hyn, yn enwedig y sector hunan-ddarpar, lle mae 17% wedi cael mwy o gwsmeriaid eleni ond 47% wedi cael llai.

Mae De-ddwyrain Cymru yn gwneud yn debyg i'r llynedd, gyda 27% o fusnesau'n gweld cynnydd mewn cwsmeriaid o gymharu â 25% yn gweld gostyngiad. Mae'r tri rhanbarth arall yng Nghymru i gyd i lawr at ei gilydd.

## Bu tywydd heulog y gwanwyn o gymorth i lawer o fusnesau

Gwanwyn 2025 (Mawrth i Fai) oedd y gwanwyn mwyaf heulog a chynhesaf a gofnodwyd erioed yng Nghymru a’r DU yn ôl y Swyddfa Dywydd. Mae dau o bob pump (40%) o fusnesau sydd â chynnydd mewn cwsmeriaid y flwyddyn hyd yma yn priodoli eu cynnydd mewn busnes yn ddigymell i dywydd heulog y gwanwyn.

## Ond mae diffyg incwm gwario yn amharu ar y galw

Ar yr ochr arall, mae dau o bob pump (40%) o fusnesau sydd â llai o gwsmeriaid yn priodoli eu dirywiad yn ddigymell i ‘bobl heb incwm gwario’.

## Mae perfformiad yr haf yn dibynnu i raddau helaeth ar archebion munud olaf

Cyfraddau deiliadaeth presennol ar gyfer mis Awst yw 76% yn y sector carafanau a gwersylla, 72% mewn llety hunan-ddarpar a 65% mewn llety â gwasanaeth. Dywed llawer o weithredwyr eu bod angen mwy o archebion na hyn yn ystod y tymor brig ond bod tuedd gref tuag at archebu munud olaf. Mae’r duedd yn cael ei gyrru gan aros i weld beth mae rhagolygon y tywydd yn ei ddangos ac incwm gwario, felly bydd y ddau ffactor yn dylanwadu ar berfformiad busnesau twristiaeth Cymru yr haf hwn.

## Hyder mewn rhedeg y busnes yn broffidiol

Mae tua un o bob chwech (16%) o weithredwyr yn teimlo'n 'hyderus iawn' i weithredu'n broffidiol eleni a dywed 41% arall eu bod yn teimlo'n 'weddol hyderus'. Mae hyn er gwaethaf pwysau cost sylweddol.

# 2. Cefndir a methodoleg

## Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cam hwn yn edrych ar berfformiad y flwyddyn hyd yn hyn, a lefelau archebion a disgwyliadau am weddill yr haf. Mae pynciau ad-hoc y tro hwn yn cynnwys anghydbwysedd twristiaeth, natur dymhorol, cydweithio â gweithredwyr eraill a recriwtio.

## Sut y cynhaliwyd yr arolwg?

Rydym wedi cynnal 901 o gyfweliadau dros y ffôn. Mae canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i ±3.3%. Mae cydbwysedd y sampl fesul rhanbarth a sector yn adlewyrchu'n fras y diwydiant yng Nghymru. Mae'r gronfa ddata cysylltiadau a ddefnyddir yn gyfuniad o restr Croeso Cymru o fusnesau graddedig a chronfeydd data o fusnesau heb eu graddio yr ydym wedi'u cael gan gyflenwr annibynnol.

**Tabl 1: Sampl ymchwil fesul sector a rhanbarth**

| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 112 | 45 | 73 | 30 | **260** |
| Llety hunan-ddarpar | 83 | 57 | 90 | 27 | **257** |
| Parciau carafanau / gwersylla | 32 | 22 | 42 | 9 | **105** |
| Hostelau | 4 | 6 | 8 | 5 | **23** |
| Atyniadau | 32 | 20 | 26 | 24 | **102** |
| Gweithredwyr gweithgareddau | 20 | 11 | 11 | 9 | **51** |
| Bwytai / tafarndai / caffis | 28 | 20 | 31 | 24 | **103** |
| **Cyfanswm** | **311** | **181** | **281** | **128** | **901** |


Mae 64% o fusnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau heb eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis, nad ydynt yn cael eu graddio.

Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 2 a 12 Mehefin 2025.

# 3. Perfformiad 2025 hyd yma

## Perfformiad fesul sector

**Ffigur 1: C1 "Faint o gwsmeriaid ydych chi wedi ei gael hyd yn hyn eleni o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?" fesul sector**




Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio

## Blwyddyn gymysg hyd yma

Mae oddeutu chwarter (23%) o fusnesau twristiaeth wedi cael mwy o gwsmeriaid hyd yma eleni o'i gymharu â'r llynedd, ac mae 41% arall wedi cael yr un lefel. Fodd bynnag, mae 36% wedi adrodd lleihad.

Mae sectorau nad ydynt yn sectorau llety yn agos at gyfateb i berfformiad y llynedd, ond mae sectorau llety wedi cael blwyddyn heriol hyd yn hyn, yn enwedig y sector hunan-ddarpar, lle mae 47% wedi cael llai o gwsmeriaid. Rydym yn trafod y rhesymau o dan C3 yn ddiweddarach.

> "Roedd y Pasg yn dda iawn ac roedd hanner tymor cyntaf ysgolion yn dda hefyd"
> Atyniad, Canolbarth


> "Mae'n flwyddyn mor siomedig. Mae fy adolygiadau a phopeth yn dda ond dydy'r cwsmeriaid ddim yn teithio i Gymru oherwydd costau byw."
> Llety â gwasanaeth, De-orllewin

> "Rydyn ni'n gorfod gwrthod pobl; mae mor brysur"
> Llety â gwasanaeth, Gogledd

> "Am y tro cyntaf, rwy'n poeni am archebion. Rydyn ni 35% i lawr eleni."
> Llety Hunan-ddarpar, Gogledd

# Perfformiad fesul rhanbarth

**Ffigur 2: C1 "Faint o gwsmeriaid ydych chi wedi ei gael hyd yn hyn eleni o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?" fesul rhanbarth**




Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio

## Perfformiad cytbwys yn y De-ddwyrain, ond nid rhanbarthau eraill

Mae'r De-ddwyrain yn gwneud yn debyg i'r llynedd, ond mae'r tri rhanbarth arall yng Nghymru i gyd i lawr at ei gilydd.


Ymhlith busnesau'r De-ddwyrain sy'n cynyddu eu lefelau cwsmeriaid, mae traean (33%) yn priodoli'r cynnydd i'w 'wella'r cynnyrch / cynnig' ac mae 24% yn ei briodoli i 'adolygiadau cadarnhaol. Mae'r ddau ffigur hyn yn uwch nag yn rhanbarthau eraill Cymru.

> "Rydym wedi cael gosod pwll nofio gwerth £1.3 miliwn. Mae buddsoddiadau'n parhau."
> Parc carafanau, De-ddwyrain

> "Rwy'n gobeithio y bydd yn well na'r llynedd gan na allaf fforddio gweithredu ar golled. Dydw i ddim yn derbyn arosiadau am un noson bellach."
> Llety Hunan-ddarpar, Canolbarth

## Rhesymau dros fod yn brysurach

**Ffigur 3: C2 "Oes unrhyw resymau penodol pam fod gennych chi fwy o gwsmeriaid hyd yn hyn eleni?" (heb annog)**




Gofynnwyd C2 i fusnesau sydd â mwy o gwsmeriaid hyd yma (C1). Roedd ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb.

## Tywydd heulog y gwanwyn

Gwanwyn 2025 (Mawrth i Fai) oedd y gwanwyn mwyaf heulog a chynhesaf a gofnodwyd erioed yng Nghymru a'r DU, yn ôl y Swyddfa Dywydd. Mae dau o bob pump (40%) o fusnesau sydd â chynnydd mewn cwsmeriaid y flwyddyn hyd yma yn priodoli eu cynnydd mewn busnes yn ddigymell i dywydd heulog y gwanwyn.

> "Mae'r busnes yn gwneud yn well na'r llynedd oherwydd y tywydd heulog"
> Parc carafanau, Gogledd

## Mae buddsoddi yn y cynnyrch a gynigir yn talu ar ei ganfed

Mae un o bob pump (20%) o fusnesau â lefelau cwsmeriaid uwch yn priodoli'r cynnydd i 'wella'r cynnyrch / cynnig'. Mae rhai o'r busnesau hyn hefyd wedi ateb 'adolygiadau cadarnhaol' ar sail eu harlwy gwell. Mae nifer o achosion wedi'u hadrodd o reolwyr newydd yn dod i mewn i fusnes, yn ailwampio'r hyn sydd ar gael ac yn gweld newid sylweddol mewn busnes o ganlyniad.


“Rydym wedi bod yn defnyddio ein helw i ail-fuddsoddi yn y busnes a cheisio cadw ein lle cystal â phosib. Yn ffodus, mae’n troi allan yn eithaf cadarnhaol gan fod busnes yn gwella dros y blynyddoedd.”
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

“Rydym yn gyffrous iawn gan ein bod wedi lansio encil. Mae mwy o bobl yn dangos diddordeb mewn syllu ar y sêr wrth i ni ei hyrwyddo ar ein cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn ymchwilio i bartïon ar gyfer syllu ar y sêr ac i godi hyd yn oed mwy o ymwybyddiaeth. Rydyn ni newydd archebu telesgop mawr i'w roi y tu allan i'n gwesteion allu syllu ar y sêr.”
Parc carafanau, Canolbarth

“Fe wnaethon ni gymryd drosodd tua 18 mis yn ôl a rhoi llawer o’n harian ein hunain i mewn i adnewyddu. Bu'n bosibl dileu rhai o’r adolygiadau gwael o’r berchnogaeth flaenorol ac fe helpodd hynny ni… mae’r bwyty’n llawer prysurach nag yr arferai fod.”
Llety â gwasanaeth, Gogledd

## Rhesymau dros fod yn dawelach

### Ffigur 4: C3 "A oes unrhyw resymau penodol pam roedd gennych lai o gwsmeriaid hyd yn hyn eleni?" (heb annog)




Gofynnwyd C3 i fusnesau sydd â llai o gwsmeriaid hyd yma (C1). Roedd ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb.

## Diffyg incwm gwario

Dywed llawer o fusnesau fod diffyg incwm gwario yn amharu ar archebion. Mae rhai yn sylwi ar hyn yn eu cwsmeriaid rheolaidd, nad ydynt yn ymweld mor aml am y rheswm hwn.

> "Mae wedi bod yn arswydus eleni. Does gan bobl ddim yr arian. Nid yw fel yr arferai fod pan fyddai pobl yn archebu'r gwyliau ar ddechrau'r flwyddyn. Nawr maen nhw i gyd yn aros tan y funud olaf. Gwell cadw eu harian yn eu cyfrif banc eu hunain na fy un i am wn i."
> Parc carafanau, Gogledd

> "Dim ond unwaith y flwyddyn y daw ein cwsmeriaid rheolaidd yn hytrach na thair gwaith. Does gan bobl ddim yr arian ... mae llawer o bobl yn ymweld â'r ardal am y diwrnod nawr yn hytrach nag aros ychydig o nosweithiau."
> Llety â gwasanaeth, Gogledd

Yn gysylltiedig â diffyg incwm gwario mae ansicrwydd economaidd byd-eang. Credir bod hyn yn achosi rhai defnyddwyr i oedi cyn archebu. Mae rhai busnesau yn adrodd am ganslo teithiau o America am y rheswm hwn.

> "Mae grŵp taith o America wedi canslo rhai o'r dyddiadau ar gyfer y teithiau oherwydd yr ansicrwydd economaidd ar gyfer eleni."
> Llety â gwasanaeth, De-orllewin

> "Mae rhai cynigion pecyn gyda gweithredwyr i mewn i'r DU wedi'u canslo oherwydd arafu marchnad America"
> Llety â gwasanaeth, Gogledd

## Polisïau Llywodraeth Cymru

Mae tua un o bob pump (18%) o fusnesau yn dyfynnu polisïau Llywodraeth Cymru yn ddigymell fel rheswm dros fod yn dawelach. Mae hyn yn fwy amlwg ymhlith gweithredwyr llety â gwasanaeth (20%) na gweithredwyr nad ydynt yn llety (8%). Y polisïau y teimlir eu bod yn rhwystro archebion yw:

- Yr ardoll twristiaeth sydd ar ddod, oherwydd ansicrwydd cwsmeriaid ynghylch pryd, ble a sut y caiff ei chyflwyno
- 'Rheol 182 diwrnod', oherwydd ei fod yn rhoi argraff i ymwelwyr nad yw Cymru yn eu croesawu
- Terfynau cyflymder 20mya


> "Rydyn ni i gyd yn brwydro i aros ar agor… mae'r posibilrwydd o'r dreth dwristiaeth wedi effeithio'n andwyol ar dwristiaeth yn yr ardal."
> Atyniad, De-orllewin

> "Mae llawer o bobl wedi bod yn dweud wrthym eu bod yn teimlo nad oes croeso iddynt yn yr ardal bellach"
> Llety â gwasanaeth, Gogledd

> "Rydym yn derbyn llawer o adborth am y cyfyngiad 20mya a dyna un o'r rhesymau nad yw ein busnes yn gwneud yn dda eleni."
> Llety â gwasanaeth, Gogledd

## Lefelau deiliadaeth y gwanwyn

**Ffigur 5: C5 "Faint o'ch capasiti sydd ar gael oedd wedi'i archebu ar gyfer...?" (gweithredwyr llety)**




Gofynnwyd C5 i weithredwyr llety. Mae atebion 'ddim yn gwybod' ac 'ar gau trwy'r mis' wedi eu heithrio. Mae'r lefelau deiliadaeth a ddangosir wedi'u pwysoli yn ôl maint y busnes.


### Cyfraddau deiliadaeth y gwanwyn yn uwch na'r llynedd ar gyfer llety â gwasanaeth

Roedd cyfraddau defnydd net yn y sector llety â gwasanaeth 5 neu 6 pwynt canrannol yn uwch ym mhob mis o'r gwanwyn o gymharu â'r llynedd. Yn hunan-ddarpar, roedd cyfraddau defnydd misol yn y gwanwyn yn debyg iawn i'r llynedd. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod mwy o fusnesau yn y sectorau hyn yn nodi bod lefelau cwsmeriaid yn is na'r llynedd na'r rhai a ddywedodd eu bod wedi codi (yn Ch1).

Y rheswm am yr anghysondeb ymddangosiadol hwn yw bod y cyfraddau defnydd uchod yn cael eu pwysoli yn ôl maint busnes. Mae canlyniadau'n dangos bod busnesau mawr wedi perfformio'n well o gymharu â'r llynedd na rhai llai, ac mae eu cyfraddau defnydd yn cael mwy o effaith ar y sector.

Mae'r siartiau isod yn dangos y gwahaniaethau o flwyddyn i flwyddyn mewn deiliadaeth sector:

**Ffigur 6: Cymhariaeth deiliadaeth net flwyddyn ar ôl blwyddyn**




> "Rydyn ni'n llawn ar gyfer y gwanwyn hyd at yr haf, felly rydyn ni'n hapus iawn"
> Llety â gwasanaeth, De-orllewin

## Gwahaniaethau fesul rhanbarth

### Tabl 2: Deiliadaeth net fesul sector a rhanbarth


| | Deiliadaeth Mawrth i Mai | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sector / Rhanbarth** | **Gogledd** | **Canolbarth** | **De-orllewin** | **De-ddwyrain** | **Cymru Gyfan** |
| Llety â gwasanaeth | 74% | 69% | 64% | 69% | 70% |
| Llety hunan-ddarpar | 70% | 59% | 56% | 72% | 64% |
| Carafanau a gwersylla | 65% | 75% | 65% | 56% | 67% |

Mae perfformiadau rhai sectorau rhanbarthol yn gymharol gryfach nag eraill o ran deiliadaeth. Mae'r sector carafanau a gwersylla wedi perfformio'n dda yng Nghanolbarth Cymru yn ystod y gwanwyn. Mae'r sector hunan-ddarpar wedi perfformio'n llawer gwell yn y Gogledd a'r De-ddwyrain nag yn y Canolbarth a'r De-orllewin.

# 4. Archebion ymlaen llaw, disgwyliadau a hyder

## Archebion ymlaen llaw

### Ffigur 7: C6 "Faint o'ch capasiti sydd ar gael sydd wedi'i archebu ar gyfer... ?"




Gofynnwyd C6 i weithredwyr llety. Mae atebion ‘ddim yn gwybod’ ac ‘ar gau trwy’r mis’ wedi eu heithrio. Mae'r lefelau deiliadaeth a ddangosir wedi'u pwysoli yn ôl maint y busnes.

## Mae perfformiad yr haf yn dibynnu i raddau helaeth ar archebion munud olaf

Dywed llawer o weithredwyr eu bod angen mwy o archebion nag sydd ganddynt ar hyn o bryd ar gyfer y tymor brig ond bod tuedd gref tuag at archebu munud olaf. Mae’r duedd yn cael ei gyrru gan:

- Aros i weld beth mae rhagolygon y tywydd yn ei ddangos, gyda llawer o ddefnyddwyr yn ymgynghori ag apiau tywydd ar eu ffôn
- Incwm gwario, y gall ei ragolygon newid gyda chyhoeddiadau'r llywodraeth ar gynlluniau gwariant neu doriadau

Bydd y ddau ffactor yn dylanwadu ar berfformiad busnesau twristiaeth Cymru yr haf hwn.

> “Eleni mae’r archebion wedi bod yn funud olaf iawn. Fel arfer mae fy nghalendr yn llawn hyd at fis Awst erbyn hyn, ond mae'r archebion yn diflannu ar ôl mis Mehefin. Fodd bynnag, dwi’n disgwyl y bydd llawer o archebion munud.”
> Llety â gwasanaeth, Gogledd

> “Y duedd yw bod pobl yn archebu’n hwyrach ac yn hwyrach: naill ai’r diwrnod cynt neu ar y diwrnod, sydd fel busnes yn anodd o ran staffio. Mae angen i ni gadw'n hyderus. Mae’r apiau tywydd mor dda nawr ac mae pobl yn ymwybodol o hynny.”
> Darparwr gweithgaredd, Gogledd

> “Rydyn ni wedi newid ein cynnig i noson unigol. Rydyn ni'n cael llawer o arosiadau munud olaf ond am fwy o gost i ni. Mae llawer o bobl yn gwylio’r tywydd ac mae wedi gweithio'n dda i ni dros yr wythnosau diwethaf.”

Llety â gwasanaeth, Gogledd

## Gwahaniaethau fesul rhanbarth


### Tabl 3: Deiliadaeth wedi archebu fesul sector a rhanbarth

| | Deiliadaeth Gorffennaf i Medi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cymru Gyfan |
| Llety â gwasanaeth | 68% | 53% | 61% | 70% | 65% |
| Llety hunan-ddarpar | 75% | 57% | 69% | 75% | 70% |
| Carafanau a gwersylla | 68% | 74% | 71% | 73% | 71% |

Mae gwahaniaethau fesul rhanbarth yn y lefelau deiliadaeth presennol ond mae'r duedd archebu munud olaf yn golygu y gallai'r darlun hwn i gyd newid yn anterth yr haf.

## Disgwyliadau fesul marchnad

### Ffigur 8: C7 "Ydych chi'n disgwyl i nifer y cwsmeriaid yr haf hwn o ... fod i fyny, i lawr neu'r un fath â'r haf diwethaf?"




Mae atebion 'amherthnasol' gan fusnesau nad ydynt yn derbyn ymwelwyr o farchnad benodol wedi'u heithrio

## Disgwyliadau cyffredinol o sefydlogrwydd yr haf hwn

Ar y cyfan, mae'r diwydiant yn disgwyl i lefelau ymwelwyr o bob un o'r tair prif farchnad fod tua'r un peth â'r haf diwethaf. Fodd bynnag, mae'r duedd archebu munud olaf yn ei gwneud hi'n anoddach rhagweld y misoedd i ddod nag oedd yn arfer bod.

> "Rydym yn gweld mwy o Ewropeaid eleni. Roedd y llynedd yn brysur gydag Americanwyr ond dydyn nhw ddim yn cael sylw mawr o gwbl eleni."
> Llety â gwasanaeth, Gogledd

“Dyma’r amser i westeion tramor. Mae gennym ni fwy nag o’r DU ar hyn o bryd, yn enwedig Almaenwyr ac o’r Iseldiroedd.”
Parc carafanau, Gogledd

### Optimistiaeth uwch ymhlith gweithredwyr nad ydynt yn llety


Mae disgwyliadau yn fwy optimistaidd ymhlith gweithredwyr nad ydynt yn llety o gymharu â gweithredwyr llety ar gyfer y tair marchnad. Ar gyfer y farchnad dramor er enghraifft, mae 30% o weithredwyr nad ydynt yn llety yn disgwyl bod i fyny o gymharu â 16% yn disgwyl bod i lawr. Mae hyn yn cymharu â 23% o weithredwyr llety yn disgwyl i ymwelwyr tramor gynyddu o gymharu â 27% yn disgwyl gostyngiad.

“Rydym yn rhoi cynnig ar ychydig o gynlluniau peilot ymgysylltu a theithiau tywys. Rydyn ni'n gyffrous iawn am yr haf. Mae llawer o ddysgu yn digwydd ac rydym yn darganfod beth mae ein hymwelwyr ei eisiau gennym ni.”
Atyniad, Gogledd

“Rydym yn disgwyl haf prysur gan ein bod wedi agor safle mwy”
Bwyty, Canolbarth

## Hyder mewn rhedeg y busnes yn broffidiol

**Ffigur 9: C8 "Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am redeg y busnes yn broffidiol y flwyddyn hon?"**




### Lefelau cymysg o hyder

Mae dros hanner (57%) y gweithredwyr yn teimlo'n hyderus ynghylch rhedeg eu busnes yn broffidiol eleni. Mae hyn er gwaethaf nifer o heriau cost cynyddol.

“Rydyn ni’n hyderus iawn y bydd hi’n flwyddyn dda ac rydyn ni’n gobeithio am dywydd da”
Parc carafanau, De-orllewin

Fodd bynnag, mae eraill yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd, hyd yn oed os ydynt yn gwneud yn dda o ran nifer y cwsmeriaid. Mae costau gweithredu uchel mewn meysydd fel cyfleustodau, bwyd a diod, isafswm cyflog ac yswiriant gwladol yn golygu bod

angen i fusnesau godi eu prisiau yn ddelfrydol. Fodd bynnag, mae terfyn ar faint y gallant wneud pan fydd gan eu cwsmeriaid pryderon cost eu hunain.

> "Mae'r codiad cyflog cenedlaethol yn golygu na fyddwn ni'n broffidiol eleni"
> Atyniad, De-ddwyrain

> "Mae'n anodd iawn codi prisiau oherwydd fydd pobl ddim yn archebu"
> Hunan-ddarpar, De-orllewin

> "Mae'n mynd yn anoddach oherwydd y diffyg elw. Mae'r biliau a'r costau ar gyfer cynnal a chadw cyffredinol yn cynyddu ond ni allaf godi prisiau oherwydd byddaf yn colli cwsmeriaid."
> Llety â gwasanaeth, Canolbarth

## Rheol 182 niwrnod yn cael effaith arwyddocaol ar nifer o weithredwyr hunan-ddarpar

Mae hyder ar ei isaf yn y sector hunan-ddarpar, gyda thua dau o bob pump (39%) yn dweud nad ydyn nhw'n hyderus.

Mae llawer o weithredwyr yn ymdrechu i fodloni'r gofyniad deiliadaeth 182 diwrnod er mwyn osgoi talu cyfradd dreth gyngor ddomestig premiwm ar ail gartrefi. I rai, mae hyn yn golygu gostwng eu prisiau mor isel fel nad ydynt bellach yn gweithredu'n broffidiol. I eraill, os nad ydynt yn cyrraedd y 182 diwrnod yna maent yn ystyried y premiwm treth fel rhan o'u costau busnes ac felly'n gweld eu busnes yn amhroffidiol.

> "Er mwyn bodloni'r gofyniad 182 diwrnod, mae angen i ni ostwng y pris gwerthu. Yn gyffredinol, nid ydym yn gwneud llawer o elw."
> Llety Hunan-ddarpar, Canolbarth

> "Fe wnaethon ni weithio mor galed i gael 130 noson yn y flwyddyn. Rhoesom y gorau i fasnachu tua diwedd mis Mawrth. Rwy'n arbed £11,000 y flwyddyn mewn treth cyngor oherwydd fedra i ddim gwneud 182 diwrnod y flwyddyn."
> Hunan-ddarpar, De-ddwyrain

> "Oherwydd effaith rheolau treth newydd, rydyn ni nawr yn talu trethi anferth 30% yn uwch nag o'r blaen. Mae hyn yn golygu nad ydym yn hyderus ynghylch rhedeg ein busnes yn broffidiol."
> Hunan-ddarpar, De-ddwyrain

## Gwahaniaethau fesul rhanbarth a sector


Gwelir y cyfrannau uchaf o weithredwyr yn teimlo'n 'hyderus iawn' ymhlith:

- Bwytai, tafarndai a chaffis (28%)
- Hostelau (26%)
- Parciau carafanau a gwersylla (20%)
- Busnesau yn Ne Cymru (22%)

# 5. Anghydbwysedd twristiaeth a natur dymhorol

## Barn busnesau

**Ffigur 10: C10 " Faint ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau canlynol?"**




### Angen mawr i ymestyn y tymor

Mae llawer o fusnesau twristiaeth yn cael eu herio gan natur dymhorol ac yn ei chael hi'n anodd adennill costau dros gyfnod o flwyddyn gyfan. Bellach mae gan lawer o fusnesau hunan-ddarpar yr her ychwanegol o gyflawni 182 noson o ddeiliadaeth i fod yn gymwys ar gyfer ardrethi annomestig ac osgoi talu ardrethi domestig premiwm ar ail gartref.

Mae busnesau ar draws pob sector ac ardal awdurdod lleol, gan gynnwys ardaloedd twristiaeth, yn awyddus iawn i weld mwy o dwristiaeth y tu allan i'r tymor brig.

> "Mae yna ostyngiad enfawr yn nifer y cwsmeriaid yn ystod y tymor tawel. Mae popeth yn disgyn oddi ar y dibyn."
> Parc carafanau, Gogledd

Un her sylweddol o ran denu ymwelwyr y tu allan i gyfnodau brig, yn enwedig yn y gaeaf, yw bod llawer o fusnesau'n cau ac felly mae diffyg pethau i ymwelwyr eu gwneud a lleoedd i fwyta.

> "Mae popeth yn cau yn y tu allan i'r tymor yng Nghei Newydd, a gallwn i wneud gyda'u cael ar agor: lleoedd fel siopau sglodion, lleoedd hufen iâ, y siopau. Maen nhw i gyd wedi cau."
> Parc carafanau, Canolbarth

“Rydym yn darganfod bod tafarndai yn yr ardal yn cau yn y gaeaf neu ddim yn gweini bwyd bellach. Rwy’n meddwl bod problemau staffio.”
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

## Byddai pob ardal hefyd yn hoffi mwy o dwristiaeth yn y tymor brig

Y farn ymhlith busnesau ledled Cymru yw, er bod y tymor brig yn brysur gydag ymwelwyr, nid yw’n ddigon prysur o ran y refeniw sydd ei angen arnynt i gymorthdalu’r misoedd tawelach. Mae'r teimlad hwn yn llai cryf ym mannau twristiaeth poblogaidd Ynys Môn a Gwynedd, ond serch hynny mae'r farn yno'n gogwyddo mwy tuag at eisiau mwy o dwristiaid yn y tymor brig. Mae tua dau o bob pump (41%) o fusnesau yng Ngwynedd yn ‘cytuno’n gryf’ â hyn, ac 16% yn ‘cytuno ychydig’. Mae tua thri o bob deg (29%) o fusnesau yn Ynys Môn yn ‘cytuno’n gryf’ a 23% yn ‘cytuno ychydig’.

## Safbwyntiau cymysg ar anghydbwysedd twristiaeth

Mae rhai busnesau'n cyfaddef, er y byddent yn elwa o fwy o dwristiaid yn y tymor brig, bod anghydbwysedd o safbwynt ehangach gan ystyried anghenion trigolion lleol. Fodd bynnag, mae rhai yn dweud nad cael gormod o dwristiaid yw'r broblem ond bod angen gwell rheolaeth ar adegau prysur.

“Dydw i ddim yn meddwl bod yna or-dwristiaeth ond mae angen logisteg i ddarparu ar gyfer mwy o dwristiaeth”
Gweithredwr gweithgaredd, Sir Ddinbych

“Rwy’n meddwl bod gweithredwyr lleol eraill a minnau’n cytuno bod y tymor brig yn Ynys Môn yn eithaf llawn”
Llety â gwasanaeth, Môn


“Dydw i ddim yn meddwl bod yna anghydbwysedd twristiaeth eto”
Llety Hunan-ddarpar, Abertawe

“Rydyn ni'n cael rhywfaint o or-dwristiaeth yn y tymor brig”
Llety Hunan-ddarpar, Gwynedd

“Dydyn ni ddim eisiau rhagor o dwristiaid yma yn yr haf. All y seilwaith ddim ymdopi gan nad oes digon o leoedd parcio ac rydym yn cael llawer o ymwelwyr dydd sy'n gwario ychydig iawn. Dydyn ni ddim eisiau mwy ohonyn nhw.”
Llety â gwasanaeth, Conwy

Mae meintiau samplau llawer o awdurdodau lleol yn eithaf isel, felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli’r canlyniadau, ond mae’r siart isod yn dangos yr atebion ar gyfer busnesau sydd wedi’u lleoli mewn ardaloedd twristiaeth poblogaidd:


**Ffigur 11: C10 “Faint ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau canlynol?”**



# 6. Cydweithio â gweithredwyr eraill

## Gwahanol ffyrdd o gydweithio

**Ffigur 12: C11 "Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y mae eich busnes yn cydweithio â gweithredwyr twristiaeth a lletygarwch eraill yn eich ardal leol?"**




### Mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn gweithio gydag eraill

Mae'r rhan fwyaf (80%) o fusnesau twristiaeth yn gweithio gyda busnesau neu sefydliadau twristiaeth eraill mewn rhyw ffordd, naill ai trwy drefniadau ffurfiol neu argymhellion anffurfiol. Mae hwn yn ganfyddiad cyffredin ar draws pob sector a rhanbarth.

> “Mae gennym fentrau marchnata gyda thua 15 o atyniadau eraill yn yr ardal. Rydym yn cysylltu ac yn cydweithio â gwestai lleol a’n gilydd.”
> Atyniad, Canolbarth

> “Rydw i mewn cynllun Gwarchod Carafanau. Rydyn ni'n dod at ein gilydd i drafod pethau."
> Parc carafanau, Gogledd

### Argymell busnesau mewn sectorau eraill i gwsmeriaid

Bydd y mwyafrif o weithredwyr ym mhob sector yn argymell lleoedd i fwyta, ymweld neu aros i'w cwsmeriaid. Mae'n bwysig bod eu cwsmeriaid yn cael ymweliad boddhaus â'r ardal.

> “Rydym yn gwneud ein gorau i hyrwyddo busnesau lleol i gwsmeriaid fel bwytai lleol ac atyniadau twristiaeth”
> Parc carafanau, Canolbarth

> “Rwy’n rhestru bwytai a thafarndai yn yr e-bost cadarnhau rwy’n ei anfon. Mae llawer o bobl yn mynd i’r Goat i gael cinio dydd Sul.”
> Llety Hunan-ddarpar, Gogledd

## Cyfeirio o fewn yr un sector

Nid yw rhai busnesau yn yr un sector mewn ardal benodol yn gweld ei gilydd fel cystadleuwyr, ond yn hytrach maent yn helpu ei gilydd er lles eu diwydiant twristiaeth lleol. Mae'n eithaf cyffredin i ddarparwyr llety roi lleoliad arall i ymholwyr gysylltu â nhw os ydynt yn llawn. Mae busnesau nad ydynt yn rhai llety hefyd yn helpu ei gilydd, yn enwedig darparwyr gweithgareddau (mae 69% yn gwneud hyn).

> “Rydym yn aml yn argymell busnesau eraill os ydym yn llawn”
> Bwyty, Canolbarth

> “Rydyn ni i gyd yn yr un cwch yma. Dydan ni ddim yn cael llawer o gwsmeriaid ac felly rydym i gyd yn ceisio cefnogi ein gilydd.”
> Parc carafanau, Gogledd

## Gweithio gyda chanolfannau croeso lleol

Mae hyn yn fwyaf cyffredin ymhlith atyniadau (mae 26% yn gwneud hyn) a darparwyr gweithgareddau (22%). Dywed rhai busnesau eu bod yn arfer gweithio llawer mwy gyda Chanolfannau Croeso ond mae dulliau archebu wedi newid a/neu mae Canolfannau Croeso wedi cael eu cau.


> “Roedden ni'n arfer gweithio'n eithaf agos gyda'r ganolfan groeso. Byddent yn ein ffonio’n rheolaidd.”
> Llety â gwasanaeth, Canolbarth

> “Dydyn ni ddim yn gweithio gyda’r ganolfan groeso cymaint ag yr oedden ni’n arfer ei wneud. Roedd yn arfer bod bob dydd ond mae pawb yn archebu ar-lein nawr.”
> Llety â gwasanaeth, Canolbarth

# 7. Recriwtio

## Llenwi swyddi gwag presennol

**Ffigur 13: C12 "Ydych chi ar hyn o bryd yn ceisio llenwi unrhyw swyddi gwag, boed hynny'n barhaol neu'n dymhorol?"**




Gallai'r ymatebwyr roi mwy nag un ateb i'r cwestiwn uchod

### Mae lleiafrif o fusnesau yn ceisio recriwtio ar hyn o bryd

Ar hyn o bryd, mae 15% o fusnesau yn ceisio llenwi swyddi gwag. Mae hyn yn fwyaf cyffredin ymhlith bwytai / tafarndai / caffis (23%), llety â gwasanaeth (21%) ac atyniadau (20%). Nid yw'r gwahaniaethau fesul rhanbarth yn arwyddocaol.

Dywed rhai na allant fforddio recriwtio staff oherwydd y cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, y Cyflog Byw Cenedlaethol ac Yswiriant Gwladol.


> “Rwy’n gwneud elw ond dim ond oherwydd fy mod yn torri’r holl gostau ac rwy’n gwneud popeth fy hun fel glanhau a rheoli”
> Hunan-ddarpar, De-orllewin

> “Ni fyddaf yn cyflogi unrhyw staff, oherwydd yr angen i dalu YG”
> Hunan-ddarpar, De-orllewin

> “Rydyn ni'n gwneud y glanhau, fel arall ni fyddem yn gwneud unrhyw elw”
> Llety Hunan-ddarpar, Gogledd

## Maint yr anawsterau recriwtio

**Ffigur 14: C13 "A ydych chi'n cael unrhyw anhawster wrth recriwtio staff ar hyn o bryd?"**




Gofynnwyd C13 i'r rhai sy'n ceisio llenwi swyddi gwag (C12)

### Llawer o anhawster


Mae mwyafrif (72%) y busnesau sy'n ceisio llenwi swyddi gwag yn cael anawsterau. Mae meintiau samplau fesul sector a rhanbarth yn fach ac felly dylid eu trin yn ofalus, ond yr awgrym yw ei bod yn anoddach recriwtio i weithredwyr llety (yn enwedig â gwasanaeth) ac yn y Gogledd a'r Canolbarth Cymru.

> "Rydym bob amser yn ceisio cymryd pobl ymlaen ond mae gennym broblemau. Nid yw rhai hyd yn oed yn dod i gyfweliadau. O bosib diffyg profiad a gwahaniaeth rhwng cenedlaethau."
> Tafarn, Canolbarth

> "Rydyn ni i gyd yn heneiddio. Rydyn ni i gyd yn wirfoddolwyr yn ein 80au. Mae angen gwirfoddolwyr yn eu 60au. Rydyn ni'n rhoi ceisiadau yn y cylchlythyrau ond yn cael dim diddordeb."
> Atyniad, De-ddwyrain

## Lefelau cyflogaeth yn achosi anhawster

**Ffigur 15: C14 "Pa rai o'r lefelau sgil a phrofiad canlynol ydych chi'n ei chael hi'n anodd recriwtio?"**



Gofynnwyd C14 i'r rhai sy'n cael anhawster recriwtio (C13)


### Mae anawsterau ar draws gwahanol lefelau o sgiliau a phrofiad

Ar gyfer swyddi nad ydynt yn swyddi rheoli, mae busnesau'n cael anawsterau recriwtio waeth beth fo'u lefel sgil neu brofiad. Efallai y bydd y canlyniadau uchod yn edrych fel pe bai swyddi rheolaethol yn llai anodd eu recriwtio ar yr olwg gyntaf, ond o ystyried bod llawer llai o swyddi rheoli ar gael mewn gweithleoedd na swyddi nad ydynt yn rheolwyr, mae nifer y busnesau sy'n ceisio eu recriwtio yn debygol o fod yn is.

> "Mae'n anodd iawn cael unrhyw staff yn gyffredinol"
> Llety â gwasanaeth, Gogledd

## Rolau swydd yn achosi anhawster

**Ffigur 16: C15 " A pha rolau swyddi ydych chi'n cael anhawster recriwtio?" (Heb annog)**




Gofynnwyd C15 i'r rhai sy'n cael anhawster recriwtio (C13)

### Mae'n anodd dod o hyd i gogyddion a glanhawyr

Os yw busnes yn chwilio am gogydd neu lanhawr newydd, mae'n bosibl iawn y bydd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i un. Mae rhai yn llwyddo i lenwi'r swyddi hyn, dim ond i ddarganfod bod y gweithiwr newydd yn gadael yn fuan wedyn.

> "Does dim cogyddion o gwmpas. Mae'n rhaid i ni gyflogi ar y llwybr fisa Gweithiwr Medrus. Dyna'r unig ffordd y gallwn aros ar agor."
> Llety â gwasanaeth, Canolbarth


“Mae’r holl gogyddion Pwylaidd ac eraill o Ddwyrain Ewrop oedd gennym ni wedi mynd yn ôl adref”
Llety â gwasanaeth, Gogledd

“Rydym wedi bod yn hysbysebu am lanhawr ers o leiaf 12 mis. Dim ond pedair ystafell sydd a dim ond dwy awr y dydd. Mae pobl yn para cwpl o wythnosau ac yna’n dweud, ‘tydi hyn ddim i mi’. Dydy pobl ddim eisiau gweithio.”
Llety â gwasanaeth, Gogledd

“Mae’n anodd dod o hyd i bobl sydd eisiau gwneud y gwaith. Byddwn ni'n cyflogi porthor cegin sy’n cyfweld yn dda ac yn ymddangos yn awyddus ond wedyn mae’n diflannu ar ôl ychydig wythnosau.”
Bwyty, De-ddwyrain

## Rhesymau dros anawsterau

**Ffigur 17: C16 "Pam ydych chi'n meddwl eich bod chi'n cael anhawster recriwtio'r rolau hynny?" (Heb annog)**




Gofynnwyd C16 i’r rhai sy’n cael anhawster recriwtio (C13)

## Diffyg cymhelliant i weithio

Mae hwn yn rheswm cyffredin dros anawsterau recriwtio. Mae rhai gweithredwyr yn dweud bod darpar weithwyr yn pwyso a mesur bod ar fudd-daliadau a pheidio â gorfod gweithio yn erbyn derbyn ychydig mwy o incwm ond gorfod gweithio amdano. Yn aml y swydd sy’n colli’r ddadl. Mae eraill yn dibynnu ar bobl ifanc sy’n astudio ond mae’n dod yn anoddach dod o hyd i’r rhai sydd wedi’u hysgogi i ddod o hyd i swydd dymhorol neu ran amser.

> “Nid oes gan y myfyrwyr rhwng 18 a 25 oed ddiddordeb mewn gweithio. Byddant yn gwneud cais ond heb unrhyw gymhelliant na moeseg gwaith.”
> Llety â gwasanaeth, Canolbarth

> “Mae pobl mewn cyfweliadau swyddi wedi dweud wrthym fod y budd-daliadau maen nhw’n eu cael yn rhy dda i gymryd swydd.”
> Llety Hunan-ddarpar, Gogledd

> “Roedden ni'n arfer cyflogi llawer o 'bobl ifanc aeddfed' tymhorol, 16/17/18 oed, ond mae hynny fwy neu lai wedi dod i ben. Dw i’n meddwl bod y rhieni’n rhy hael.”
> Parc carafanau, Canolbarth

> “Rydym wedi bod yn hysbysebu swydd rheolwr cynorthwyol ers tua tair blynedd. Rydw i wedi cyfweld pobl ac maen nhw wedi dweud, ‘Wyddoch chi beth? Dydw i ddim wir eisiau gweithio ar benwythnosau!’”
> Bwyty, Canolbarth

## Dod o hyd i'r sgiliau neu'r profiad cywir

Mae rhai swyddi yn gofyn am sgil arbenigol fel hyfforddwyr, neu mae'r busnes eisiau cynnal safon uchel o wasanaeth ac felly ond yn chwilio am staff sy'n gallu cynnal y safon uchel honno.

> “Mae gennym ni safon uchel ac mae angen i staff fod â safonau uchel fel y byddan nhw’n addas ar gyfer rolau’r swydd”
> Parc carafanau, De-orllewin

> “Mae’n anodd dod o hyd i hyfforddwyr addysgol yn y tymor brig”
> Darparwr gweithgaredd, Canolbarth